# Teithiau Eryl

Ymunodd Eryl William, cyn-gyflwynydd teledu S4C, ag Ymgyrch Caru Cymru a'i Harchwilio a theithio o gwmpas y wlad yn ei gerbyd gwersylla, Malwen. Dyma ddetholiad o'i ddyddiadur.

## Castell y Waun

Llawn cynnwrf am mai dyma'r lle mawr cyntaf i mi ymweld ag e. Ond roedd mwy o gynnwrf i ddod! Daeth tywysoges hardd i gwrdd â mi wrth fynedfa'r castell gan fy nghyfarch yn gwrtais iawn fel 'f'Arglwydd!' Teimlo'n freintiedig iawn!

## Llyndu

Am wledd o brofiad! Cael cyfle i gyfarfod y seren Hollywood, Mathew Rhys, a phlant Ysgol Gynradd Beddgelert oedd wedi dod yno i'n cefnogi. Am oriau buom yn sblashio yn y llyn yn ein wellingtons gan wylio'r cwch gyda'i faner draig Cymru yn hwylio'n ôl a mlaen. Ffilmiais hanes Draig Cymru hefyd, yng nghwmni'r bardd lleol, Cynan Jones. Roedd ei straeon Celtaidd yn fy syfrdanu!

## Traeth Rhosili

Nofio noeth! Ganol haf ar draeth Rhosili. Nid uchafbwynt yr ymgyrch oedd hwn! O na! Dyma uchafbwynt fy mywyd! Pedwar cant a saith ohonom yn rhedeg yn noethlymun i'r môr iasoer er mwyn torri record y byd!

## Ystagbwll

Yng nghwmni Malwen saethu i lawr i Ystagbwll, Sir Benfro. Roedd grŵp o'r fyddin yn y ganolfan yn helpu i adeiladu maes parcio ac ailosod y llwybrau troed gwreiddiol. Ac ie, am chwerthin! Fe ddysges i trwy brofiad pa mor galed yw gwaith y fyddin. Roedd yn anhygoel. Gwylio'r ystlumod gyda'r nos (yn union fel Scooby Doo), crwydro ar draws Penrhyn Ystagbwll a gwylio'r haul yn codi ar Heuldro'r Haf.